# Taith eich teulu drwy'r blynyddoedd cynnar

Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili
Caerphilly Early Years & Childcare Service

START HERE

## 1) Cyn geni
### Yn ystod beichiogrwydd

Pan fyddwch chi tua 30+ wythnos yn feichiog, bydd eich Gweithiwr Teulu yn cysylltu â chi i gynnig cyngor a chymorth, gan gynnwys manylion am gyrsiau cyn geni i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer eich babi.

## 2) Y geni
### Bwydo ymatebol

O fewn 72 awr ar ôl gadael yr ysbyty, bydd y gwasanaeth Bwydo Ymatebol yn cynnig cymorth o ran bwydo babanod, wedi'i deilwra i'ch anghenion.

## 3) 10–14 diwrnod oed
### Ymweliad ar ôl geni

Bydd eich Ymwelydd Iechyd yn asesu twf a datblygiad eich babi fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru, ac yn eich annog chi i fynd â'ch babi i gael ei imiwneiddio pan fydd yn 8, 12 ac 16 wythnos oed.

## 4) 2–6 mis oed
### Dechreuadau Disglair

Ymunwch â chwrs cefnogol 8 wythnos o hyd am ddim sy'n ymdrin â bwydo, tylino babi, cynnydd datblygiadol, diogelwch yn y cartref, diddyfnu, a'ch lles.

## 5) 3–12 mis oed
### Dewch i siarad â'ch babi

Rhaglen 8 wythnos llawn hwyl, diddorol ac AM DDIM i blant rhwng 3 a 12 mis oed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw 'Dewch i siarad â'ch babi'.

## 6) 6 mis oed
### Adolygu iechyd y teulu

Bydd eich Ymwelydd Iechyd yn ymweld â'ch cartref i siarad am wytnwch teuluol a chynnig cymorth os oes angen, fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru.

## 7) 15 mis oed
### Asesu datblygiad eich plentyn

Bydd eich Ymwelydd Iechyd yn asesu datblygiad eich plentyn i weld sut mae'n tyfu ac yn datblygu, fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru.

## 8) 18 mis oed
### Siarad gyda fi

Ymunwch â sesiwn sy'n cynorthwyo sgiliau iaith cynnar eich plentyn, yn helpu meithrin cartref llawn cyfathrebu, ac yn annog rhyngweithio cadarnhaol rhwng oedolion a phlant.

Yn cael ei ddatblygu*

## 9) 1–2 flwydd oed
### Datblygiad plant

Manteisiwch ar syniadau ac adnoddau i gynorthwyo iaith a datblygiad cynnar eich plentyn.

## 10) 2–3 blwydd oed
### Gofal Plant Dechrau'n Deg

Gwiriwch eich cymhwysedd ar gyfer Gofal Plant Dechrau'n Deg a gwneud cais ar-lein. Mae mynychu gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel yn theolaidd yn gwella'r deilliannau i blant.

Dechrau'n Deg
Flying Start

## 11) 27-30 mis oed
### Asesu datblygiad eich plentyn

Gwnewch gais ar-lein am addysg y blynyddoedd cynnar rhan-amser, wedi'i ariannu, o'r tymor yn dilyn pen-blwydd eich plentyn yn 3 oed.

Apply online for funded, part-time early years education from the term following your child's third birthday.

## 12) 3–4 blwydd oed
### Addysg y Blynyddoedd Cynnar

Bydd eich Ymwelydd Iechyd yn ymweld â'ch cartref i siarad am wytnwch teuluol a chynnig cymorth os oes angen.

## 13) 3 oed 7 mis - 3 oed 11 mis
### Adolygu iechyd y teulu

Mae'n asesu anghenion iechyd eich plentyn, gan gynnwys golwg, clyw a thwf i'w gynorthwyo i gyrraedd ei botensial llawn yn yr ysgol.

## 14) 4–5 mlwydd oed (Dosbarth Derbyn)
### Adolygiad gan nyrs ysgol

## 15) 4–7 mlwydd oed
### Yr ysgol a thu hwnt

Mae cymorth ar gael o ran ymddygiad, arferion a lles gartref. Mae'n cynnwys gwybodaeth am raglenni yn ystod gwyliau'r ysgol fel Bwyd a Hwyl mewn ysgolion a Chwarae yn y Parc.

www.

Rhagor o wybodaeth: www.blynyddoeddcynnarcaerffili.co.uk CaerphillyEarlyYears @CaerphillyEarlyYears